

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 30ain Ebrill , 2018.

PRESENNOL

Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Mike Rayner, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Alun Morris, Cyng. Arwel Ll.Jones, Cyng. Austin Roberts

Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain, Mawrth, 2018.

Materion yn codi o'r cofnodion

YSWIRIANT Y CYNGOR

Cadarnhaodd Cyng. Mike Rayner ei fod wedi cysylltu gyda pherchennog y peiriannau amaethyddol sydd ar safle Cegin Wen, Llanddoged ac wedi gofyn iddynt ei symud oddi yno. Bydd y clerc yn cysylltu yn ôl gyda'r cwmni yswiriant y Cyngor i gadarnhau hyn.

CYNLLUNIO

1.Cais Rhif 0/44998 - Mr Brian Williams, Summer Cottage , Llanrwst Road, Maenan LL26 0UL - Estyniad un llawr arfaethedig i annedd a llunio mynediad cerbydau newydd i ddarparu parcio ar y safle.

2. Cais Rhif 0/44992 - Mr & Mrs Wickham, Tai Bach, Ffordd Maenan, Maenan LL26. 0YN - Dileu amod Rhif 3 y caniatâd cynllunio 0/40124 (Addasiadau ac estyniadau i Tai Bach i drawsnewid yr eiddo yn dy wyliau (Diwygiad l'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol dan god rhif 0/37982) i ganiatáu defnyddio'r eiddo heb gyfyngiad yn llety gwyliau yn unig. a.y.b.

3. Cais Rhif 0/45064 - Mr Eifion Williams, Tŷ Gwyn Caravan Park, Llanddoged. LL26 0UD - Trosiad arfaethedig yr adeilad amaethyddol presennol nad yw'n cael ei ddefnyddio i greu annedd gyfoes newydd yn ei le gyda llety wedi'i inswleiddio a'i gynhesu ar gyfer yr ymgeisydd. Yna dymchweliad arfaethedig y byngalo parod presennol sydd o safon is na'r disgwyl, gwaith cloddio torri a llenwi a gosod pedair llain newydd i garfanau ar ei safle. Y tir o amgylch i'w dirlunio a'i blannu gyda choed ychwanegol er mwyn sgrinio.

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio uchod a phasiwyd fod gan Gyngor ddim gwrthwynebiad i'r ceisiadau yma.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019

Nododd y clerc ei bod heb dderbyn llythyr cais am rodd ariannol gan ysgrifennydd Pwyllgor Apêl Llanddoged a Maenan a'i bod wedi derbyn gwybodaeth fod llythyr ar ei ffordd.

EGIN WEN

Cyn y cyfarfod cynhaliwyd cyfarfod ar safle Gegin Wen i drafod rhai materion sydd angen sylw yno:-

1. Nodwyd fod y piler brics ddim yn ddiogel ac yn beryg i ddymchwel.
2. Angen tacluso a thorri'r coed ar yr ochr chwith i'r maes parcio.
3. Angen clirio gwydr sydd wedi torri ar lawr yn y maes parcio.

Trafodwyd y materion uchod a phasiwyd i'r clerc gysylltu gyda chontractwyr lleol i gael pris am atgyweirio'r materion yma.

CYMERADWYO'R CYFRIFON SYDD YN DIWEDDU 31/03/2018

Cymeradwyodd aelodau'r Cyngor y Cyfrifon sydd yn diweddu 31/03/2018 ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y ffurflenni ar lyfr cyfrifon y Cyngor. Bydd y Cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen at y Cyfrifydd Mewnol Mrs Iona Edwards Llanrwst. Aeth y clerc drwy'r ddogfennaeth fydd gan y cyfrifydd allanol ei angen gyda'r cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth, 2018.

- Copi o'r fantolen brawf (systemau electronig) neu dudalen olaf y llyfr arian papur sy'n dangos cyfansymiau incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn.
- Ffotograff yn dangos yr hysbysiad o hawliau etholwyr yn cael ei arddangos.
- Cadarnhad o union leoliad yr hysbyseb.
- Copi o gofnodion y cyfarfod lle cafodd cyfrifon 2015-16 wedi eu harchwilio a'r adroddiad archwilio eu cyflwyno (yn dilyn cwblhau'r archwiliad).
- Tystiolaeth i ddangos bod yr argymhellion gafodd eu gwneud yn dilyn archwiliad 2015-16 wedi cael eu gweithredu/eu datrys yn 2017-18 (mae copi o'ch adroddiad materion ar gyfer 2015-16 wedi atodi).
- Dadansoddiad o'r cronfeydd oedd gan y cyngor ar 31ain Mawrth, 2017 a 31 Mawrth 2018, rhwng reffeniw, wedi'u clustnodi, wedi'u dynodi, cyfalaf neu arall.
- Esboniad o bwrpas y cronfeydd hyn a phryd y rhagwelir y byddant yn cael eu defnyddio.
- Cadarnhau o'r nifer o etholwyr ar 1af Ionawr 2017 a thystiolaeth i gefnogi hyn (e.e. cofrestr etholwyr).
- Copi o'r rhestr taliadau gafodd eu gwneud dan awdurdod adran 137 ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar y 31ain Mawrth 2018.
- Dadansoddiad o unrhyw arian rhodd neu unrhyw daliadau cyflog gadael gafodd eu gwneud yn ystod y flwyddyn.
- Cadarnhad am y manylion unrhyw gronfeydd neu arian a glustnodwyd ar gyfer taliadau arian rhodd yn y dyfodol.
- Os oes gan y corff drefniant arian rhodd yn ei le, darparu copi o'r cytundeb cyflogaeth sy'n dangos bod ymrwymiad cytundebol yn bodoli.

CYLLID

Rhannwyd taflen y cyllid am y flwyddyn sydd yn diweddu 31/03/2018 a thrafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 18/19. Nodwyd fod cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19.

CYMERADWYO POLISI'AU A'R MEYSYDD ALLWEDDOL Y CYNGOR

Trafodwyd y ddogfennaeth ganlynol fesul un a chymeradwyodd y Cyngor y polisiâu ar feysydd allweddol ac arwyddodd y Cadeirydd y dogfennau.

1. Cod Ymddygiad y Cyngor
2. Rheolau Sefydlog.
3. Asesiad Risg
4. Rheoliadau Ariannol
5. Polisi Cydraddoldeb
6. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol
7. Polisi Amgylcheddol
8. Polisi Pryderon a Chwynion
9. Cynllun Cyhoeddi

AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADAU AR GYFER BWRDEISTREF SIROL CONWY – CYNIGION DRAFFT

Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cwblhau rhan gyntaf eu harolwg o'r Conwy. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Cynigion Drafft. Bydd y Comisiwn yn rhoi hysbysiad o'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychiolaethau yn dechrau ar 3 Ebrill 2018 ac yn dod i ben ar 25 Mehefin 2018. Ar ôl y dyddiad hwn bydd y Comisiwn yn ystyried y sylwadau ac unrhyw dystiolaeth newydd a dderbyniwyd cyn iddynt baratoi eu Cynigion Terfynol. Caiff y rhain eu cyhoeddi a'u cyflwyno i'r Llywodraeth Cymru, a all weithredu'r cynigion naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau.

Trafodwyd y trefniadau etholiadau newydd a nodwyd fod y bwriad gan y trefniadau etholiadau newydd ydi i ardal Llanddoged a Maenan ymuno gyda ward Llanrwst a bydd yn cael ei alw yn 'Llanrwst gyda Llanddoged.' Pasiwyd i anfon sylwadau i Gonwy fod y Cyngor Cymuned ddim yn fodlon gyda'r enw a rhoddwyd ar y ward gan fod Maenan wedi cael gadael allan o'r enw. Hefyd mae ardal Llanddoged a Maenan yn ardal wledig ac mae Llanrwst yn Gyngor Tref ac mae'r Cyngor yn gweld nid ydi materion cefn gwlad yn cyd-fynd gyda materion trefi mawr.

CEISIADAU CYMORTH ARIANNOL

1. Derbyniwyd cais cymorth ariannol gan Mrs Ruth Owen(Pennaeth Mewn Gofal) Ysgol Gynradd Llanddoged at gostau'r disgyblion i fynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.
Trafodwyd y cais a phasiwyd drwy godi dwylo i anfon £100 o rodd tuag at y costau'r ysgol.

GOHEBIAETH

1. Llythyr gan yswiriant y Cyngor.
2. Llythyr Un Llais Cymru cais i adnewyddu tal aelodaeth 2017/18.
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Gwybodaeth am ymgynghoriad diwygiedig ar Orchymyn Gwarchod Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn.

CYNNAL A CHADW

- 1) Pryder am gyflwr y ffordd Llanddoged, Adran Priffyrdd wedi 'patchio' ambell i dwll yn y ffordd.
Y ffordd yn dal yn reit anwastad mewn ambell le.